

Gosod nodau a gwerthuso ymgysylltiad

Wrth osod nodau ac yna gwerthuso eich arfer yn erbyn y nodau hynny, efallai y byddwch yn ei chael hi'n ddefnyddiol ystyried amrywiaeth o offer gwerthuso.

Mae'r set hon o feini prawf yn disgrifio sut olwg sydd ar ymgysylltiad o ansawdd da gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a sut i farnu a yw wedi'i wneud yn iawn. Mae hyn yn caniatáu i'ch sefydliad asesu a yw cyfranogiad yn ddilys, yn deg, yn ystyrlon, ac yn ddylanwadol, yn hytrach nac yn symbolaidd. Mae hefyd yn darparu mecanwaith i ganiatáu ichi ddelweddu'r hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni.

Dylech ystyried y meini prawf hyn gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth osod eich nodau ac wedi hynny, eu cynnwys nhw mewn gwerthusiadau hefyd.

Mae'n bwysig bod yn realistig ynglŷn â faint y gallwch chi ei gyflawni yn yr amser sydd ar gael, a dylai hyn fod yn gymesur yn yr amser a dreulir ar werthuso o'i gymharu â'r manteision y bydd y gwerthusiad yn eu darparu.

Meini prawf gwerthuso ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd ymgysylltu

Cynllunio

Rhaid i hyn fod yn ddilys a dylai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr fod yn rhan o'r broses o ddechrau'r broses. Fel rhan o'r broses hon, dylech sicrhau'r canlynol:-

- Caiff cynlluniau digwyddiadau neu brosiectau eu cyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr o'r cychwyn cyntaf.
- Darperir digon o amser i gynllunio ymgysylltu ac mae cyllideb ar gyfer yr amser staff sydd ei angen ar gyfer y broses ymgysylltu gyfan.
- Mae cynlluniau'n adlewyrchu blaenoriaethau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- Cyflwynir cynlluniau mewn ffordd glir a bydd adborth/canlyniadau'r digwyddiad yn cael eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau.
- Mae cynlluniau'n cynnwys sut y bydd nodau a rennir yn cael eu cyflawni
- Mae'r cynllun yn sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i weithgareddau ymgysylltu

Tegwch

Er mwyn sicrhau bod gan bawb gyfle cyfartal i gyfrannu, gydag amrywiaeth o opsiynau cyfranogi ar gael, dylech sicrhau'r canlynol:-

- Darperir cymorth priodol i'r rhai sydd ei angen.
- Mae pob barn yn cael ei chofnodi'n gywir, ac mae unrhyw nodiadau/crynodebau a gynhyrchir yn adlewyrchu ystod o safbwyntiau pawb gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.
- Ni chaiff barn leiafrifol ei hanwybyddu na'i golygu, gan gynnwys rhai defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr oherwydd nifer fach o gynrychiolwyr.
- Mae barn pob defnyddiwr gwasanaethau a gofalwr yn cael ei chofnodi a'i hadrodd ar wahân i farn rhanddeiliaid eraill.
- Cydnabyddir dylanwad anghydbwysedd pŵer rhwng defnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau.
- Cynigir gwobrau neu gymhellion i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gydnabod eu cyfraniad

Teimlo fel eich bod yn cael eich clywed a'ch parchu

- Mae barn pawb wedi'i chynnwys mewn adroddiadau a chanlyniadau gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- Defnyddir adroddiadau a chyflwyniadau o'r safbwyntiau a fynegir i lywio gwneud penderfyniadau
- Ni chaiff cyfraniadau defnyddwyr gwasanaethau eu hatal oherwydd profiad o gerydd, diffyg diogelwch neu ddiffyg parch.
- Darperir amgylchedd diogel a chyfforddus
- Hyrwyddir diwylliant derbyniol a goddefgar

Issues addressed/agenda action/goals

- yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ac nid oes penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud
- yn glir, yn ddealladwy, yn realistig ac yn gyraeddadwy
- yn berthnasol i flaenoriaethau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

- mae'r amser a neilltuwyd i drafod eitemau ar yr agenda yn cael ei ddylanwadu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

Cynnal digwyddiadau/cyfarfodydd effeithiol

Trefniadau Ymarferol a Hygyrchedd

- Dylai defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr gael o leiaf 4 wythnos o rybudd o'r digwyddiad
- Lle bo modd, dylid trefnu digwyddiadau ar amseroedd hygyrch ac os yw'n ymarferol nid cyn 10:30am.
- Dylai'r lleoliad fod yn hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ddechrau a diwedd y digwyddiad
- Dylai'r lleoliad fod yn addas i bobl anabl, a dylai fod digon o le parcio.
- Dylid darparu te/coffi, ynghyd â phryd o fwyd neu lwfans pryd o fwyd os yw'r gweithgaredd yn digwydd dros amser pryd o fwyd.
- Ad-delir treuliau allan o boced i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gan gynnwys teithio, cynhaliaeth, gofal plant, gofalwr amgen, a llety dros nos os oes angen.

Cyfathrebu a Pharatoi

- Mae gwybodaeth (megis papurau) yn hawdd ei darllen ac yn cael ei darparu o leiaf 10 niwrnod cyn y digwyddiad, yn y fformat sydd fwyaf hygyrch i'r unigolyn (megis copi electronig neu galed).
- Darperir agenda amseredig glir
- Dylid cyd-gynllunio, cyd-gynhyrchu a chyd-gyflwyno cyfarfodydd a digwyddiadau
- Dywedir wrth ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sut y bydd eu mewnbwn yn cael ei ddefnyddio

Rheoli a dilyn cyfarfodydd/digwyddiadau

- Caiff cofnodion eu recordio ar sain neu eu hysgrifennu a'u dosbarthu yn fuan ar ôl y cyfarfod.
- Cofnodir pwyntiau gweithredu ynghyd â chymau gweithredu a graddfeydd amser y perchnogion.

- Mae cyfarfodydd a digwyddiadau ar gyflymder da, yn gynhwysol, yn dechrau ac yn gorffen ar amser ac yn rhedeg yn esmwyth
- Darperir cymorth gweinyddol/ysgrifenyddol priodol

Hwylusydd/cadeirydd

- Yn defnyddio dull niwtral/cytwys sy'n dileu rhagfarn tuag at fwyafrifoedd, awdurdodau, neu safbwyntiau penodol.
- Yn sicrhau cyfranogiad cyfartal drwy reoli ac annog cyfraniadau mewn trefn a galluogi pob llais i gael ei glywed a pheidio â'i gau i lawr
- Yn trin pobl yn barchus, yn cyfryngu anghydfodau'n ddiduedd ac yn atal polareiddio a ffurfio grwpiau gwrthwynebol yn llwyddiannus
- Yn cadw trafodaethau'n ffocws ac yn brydlon.

Gwybodaeth

- Yn glir, yn hawdd ei darllen, yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ac yn osgoi jargon, (oni bai ei fod wedi'i egluro'n glir)
- Disgrifir disgwyliadau proses, rheolau a rolau yn glir a chynhyrchir ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- Yn ddigonol i baratoi darllenwyr i gymryd rhan yn effeithiol
- Ar gael mewn amrywiaeth o gyfryngau yn ôl dewis ac angen unigol

Ansawdd y trafodaethau

Pobl yn y digwyddiad:-

- yn parchu barn pawb ac yn agored, yn onest ac yn ddealladwy
- Bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd, ac yn amyneddgar gyda'r rhai sy'n cael anhawster cyfathrebu
- Mae'r rhai sy'n anghytuno yn mynegi eu barn yn adeiladol, gyda chyfranogwyr yn mabwysiadu dull "cyfaill beirniadol" sy'n meithrin trafodaeth yn hytrach na lleihau barn pobl eraill.
- Trafod ystod eang o safbwyntiau ar y pwnc ac ysgogi dadl ddilys am bynciau mewn cyfarfodydd, gan gydnabod pryd maen nhw'n cytuno â safbwyntiau cyfranwyr eraill

Ansawdd gwneud penderfyniadau

- Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn rhan o bob cam a lefel o wneud penderfyniadau, o'r datblygiad cynnar hyd at y penderfyniadau terfynol, ac maent yn cwmpasu cyd-destunau gweithredol a strategol.
- Mae cyfarfodydd yn ddefnydd effeithiol o amser lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhydd i siarad yn agored a chael annibyniaeth dros eu prosesau gwneud penderfyniadau.
- Gwneir penderfyniadau, gyda chamau gweithredu yn cael eu cofnodi a'u dirprwyo i'r unigolyn perthnasol a rhoddir sicrwydd y bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu cwblhau. Adroddir ar yr holl gynnydd a chaeir camau gweithredu pan fydd y pwyllgor neu'r grŵp yn cytuno.
- Caiff y broses o wneud penderfyniadau ei gwerthuso gyda phroses glir ar waith ar gyfer newid penderfyniadau neu ddelio â chwynion.
- Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr fynediad uniongyrchol, heb gyfryngiad at aelodau pwyllgorau a grwpiau ar gyfer gwaith rhwng cyfarfodydd

Ansawdd y cymorth

- Dylai gweithwyr cymorth fod ar gael i'r rhai sydd eu hangen; fodd bynnag, dylent fod yn ddiduedd a pheidio â mynegi eu barn eu hunain. Ond dylent fod yno i gynorthwyo'r unigolyn maen nhw'n ei gefnogi i fynegi ei farn ei hun.
- Dylai gweithwyr cymorth helpu i baratoi ar gyfer y digwyddiad, trafod y sefyllfa wedyn a darparu cymorth emosiynol os bydd cyfranogwr yn mynd yn ofidus.

Ansawdd presenoldeb

- Dylai fod presenoldeb da yn y digwyddiad, gydag amrywiaeth eang o bobl a barn yn bresennol, gan gynnwys y rhai yr effeithir arnynt fwyaf.
- Mae penderfynwyr allweddol yn bresennol mewn pwyllgorau
- Ni ddylai presenoldeb defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr fod yn symbolaidd
- Er y dylai presenoldeb cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar bwyllgorau a grwpiau fod yn gyson, dylid cydnabod y ffaith y gall salwch neu gyfrifoldebau gofalwyr arwain at ofyniad i gymryd amser i ffwrdd.

Ansawdd rhwydweithio

- Dylai'r rhaglen gynnwys gweithgareddau i helpu pobl i ddod i adnabod ei gilydd ynghyd â digon o amser ar gyfer rhwydweithio.

Ansawdd cyfathrebu

- Mae cynllun cyfathrebu ar waith ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ac wedi'i gynhyrchu ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gan sicrhau bod arbenigedd yn cael ei geisio i wneud y mwyaf o ddarllenadwyedd cyfathrebiadau a dogfennau allanol.
- Caiff ansawdd y cyfathrebu, gan gynnwys darllenadwyedd dogfennau, ei werthuso, gyda defnyddwyr gwasanaethau unigol a gofalwyr yn cael eu gofyn am eu dull cyfathrebu dewisol.
- Defnyddir ystod eang o gyfryngau ac amrywiaeth eang o leoliadau ar gyfer cyfathrebu a marchnata digwyddiadau, sy'n cyrraedd mwyafrif sylweddol o'r gymuned defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.
- Mae calendr o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ar gael gyda nodau cyffredin, a chaiff ei werth disgwylidig i'r sefydliad ei gyfleu.

Diwedd gweithgareddau

- Caiff gweithgareddau ymgysylltu eu cyflawni o fewn y gyllideb
- Mae cyfraniadau ymgysylltu yn cael eu cofnodi a'u dylanwad ar wneud penderfyniadau, camau gweithredu dilynol a pherfformiad o ran canlyniadau ac effeithiau yn cael ei olrhain.
- Ar ddiwedd gweithgareddau, digwyddiadau, cynadleddau neu gyfarfodydd tymor byr, cynhelir gwerthusiad strwythuredig. Dylai hyn gynnwys ffurflenni adborth ac adolygiad ôl-drafod, i nodi beth weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella.
- Mae gweithgaredd ymgysylltu yn agored i werthusiad allanol, ac mae gwerthusiad o effaith y gweithgaredd hefyd yn digwydd 3 i 6 mis ar ei ôl.
- Pawb a oedd yn rhan o gyflwyno'r cofnod digwyddiadau, yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu a'r hyn y byddan nhw'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf. Mae sesiwn adrodd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sydd ei angen.
- Diolchir i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a oedd yn bresennol am eu presenoldeb a rhoddir gwybod iddynt am y gwahaniaeth y maent wedi'i wneud.

- Pan fydd defnyddiwr gwasanaethau neu ofalwr ar bwyllgor neu grŵp hirdymor arall yn gadael, mae'n cael cyfweiliad ymadael i ddarganfod pam ac i asesu ansawdd ei brofiad yn y grŵp.

Ansawdd y gweithgareddau a ddefnyddir ar gyfer ymgysylltu

- Roedd y gweithgaredd yn hwyl
- Roedd yn ddiddorol
- Wedi ennyn diddordeb pobl
- Roedd yn hygyrch
- Roedd yn gynhwysol
- Roedd yn gynhyrchiol
- Roedd yn berthnasol

Canlyniadau/Effaith

Bodlonrwydd â'r broses ymgysylltu

- Mae mesurau boddhad yn cael eu cyd-ddatblygu a'u llywio gan yr hyn sydd bwysicaf i'r defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr yr effeithir arnynt fwyaf.
- Mae'r gweithgaredd yn cyflawni ei nodau bwriadedig ac yn cyd-fynd â gobeithion a disgwyliadau unigol y cyfranogwyr.
- Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu clywed, a'u deall, ac yn credu bod ganddynt ddylanwad ystyrlon o fewn y broses.
- Mae cyfranogwyr yn fodlon ar y penderfyniadau a wnaed a sut mae canlyniadau a phenderfyniadau'n cael eu cyfleu.

Cyfathrebu

- Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael gwybod am benderfyniadau a chanlyniadau, ynghyd ag esboniadau clir o'r rhesymeg y tu ôl iddynt.
- Mae adroddiadau a dogfennaeth sefydliadol ar gael yn agored ac yn hawdd eu cyrchu.

Tegwch y canlyniadau

- Does neb dan anfantais oherwydd y canlyniadau

- Y nifer fwyaf o bobl sy'n elwa
- Fel arall, caiff grwpiau heb eu gwasanaethu, neu grwpiau heb eu gwasanaethu'n ddigonol, eu codi i lefel gyfwerth â defnyddwyr gwasanaeth eraill.

Gwnaed penderfyniadau ar y cyd

- Cynhyrchir adroddiadau i gefnogi gwneud penderfyniadau, monitro cynnydd, a chyfleu canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.
- Mae penderfyniadau'n dryloyw, yn agored i graffu, ac yn gallu cael eu diwygio mewn ymateb i adborth.
- Darperir sicrwydd bod camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu a'u cwblhau

Perthnasoedd

- Dangosodd agweddau'r cyfranogwyr newid cadarnhaol yn unol â rhestr a luniwyd ar y cyd o ymddygiadau defnyddiol ac anghynorthwyol ac roedd gostyngiad yn yr ymddygiadau negyddol hyn.
- Mae perthnasoedd rhwng aelodau'r pwyllgor a'r grŵp yn cael eu cryfhau ac yn fwy cydweithredol.

Mae ansawdd cyfarfodydd wedi gwella

- Cofnodir tystiolaeth o ddysgu ar draws yr holl gyfranogwyr gan gynnwys staff, rheolwyr, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a llunwyr polisi.
- Mae ansawdd cyfarfodydd yn dangos gwelliant mesuradwy dros amser.

Mae ansawdd y gwasanaeth wedi gwella

- Mae mynediad at wasanaethau wedi gwella, gyda mwy o ddewis, argaeledd darpariaeth arbenigol, a llwybrau sy'n adlewyrchu anghenion unigol yn well.
- Mae darparu gwasanaethau yn fwy effeithlon a chynaliadwy, gyda chost-effeithiolrwydd gwell, gwell aliniad rhwng galw a chapasiti, a dilyniant llyfnach trwy wasanaethau.
- Mae gwasanaethau'n dangos gwelliant mesuradwy, gan gynnwys gwerthuso parhaus, casglu tystiolaeth, llai o gwynion, mwy o ddiogelwch, ac adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Gwnaed cynnydd ar gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt

Effaith ar staff

- Mae staff yn profi effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys gwell morâl, llesiant, boddhad swydd, arfer, gwybodaeth a sgiliau, newidiadau mewn agweddau (gan gynnwys tuag at ymgysylltu), a mwy o ymdeimlad o berchnogaeth dros newid.
- Mae datblygiad sefydliadol yn digwydd lle bo angen, gan gynnwys ailgynllunio rolau, recriwtio a hyfforddiant ychwanegol.
- Cydnabyddir effeithiau negyddol neu anfwriadol posibl, megis yr amser cynyddol sydd ei angen ar gyfer gwneud penderfyniadau, gwerthuso ac adrodd, a mwy o ymwybyddiaeth o effeithiau negyddol gwasanaethau ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr nad oeddent wedi'u cydnabod o'r blaen.
- Mae cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith.
- Mae hunan-ffeithiolrwydd, hunanhyder, morâl, llesiant, gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer fel defnyddiwr gwasanaethau neu gyfranogwr gofalwr yn gwella.
- Mae agweddau a barn yn gwella o'i gymharu â rhestr a luniwyd ar y cyd o agweddau defnyddiol ac anghynorthwyol, a chrëir ymdeimlad o berchnogaeth o'r broses, gan arwain at ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n cymryd rhan yn fwy effeithiol wrth wneud gwahaniaeth.
- Cydnabyddir effeithiau negyddol posibl, gan gynnwys blinder, gofid, neu beidio â chael eu clywed ymhlith defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr dan sylw

- Adferiad cynt a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Llai o wrthdaro a chwynion, a phrofiad a boddhad gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn nodi perthnasoedd gwell gyda staff.

Effaith ar y sefydliad

- Cysylltiadau ychwanegol â grwpiau neu bartneriaethau eraill, mwy o amrywiaeth o ffynonellau ariannu, a gwell argaeledd ariannu ac adnoddau.
- Gwelededd cynyddol y sefydliad ac atebolrwydd cryfach i'w ddefnyddwyr gwasanaethau a'i ofalwyr.

Caiff canlyniadau annisgwyl eu holrhain

- Gweithredu dinesig a newid agweddau tuag at bobl â phroblemau iechyd meddwl.
- Mwy o amser yn cael ei gymryd ar gyfer gwneud penderfyniadau a mwy o adnoddau'n cael eu gwario ar werthuso.

Mae strategaeth, polisi a phenderfyniadau eraill yn wahanol o ganlyniad i gyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

- Caiff dylanwad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ei olrhain a'i adnabod, gyda gweithgaredd ymgysylltu yn llywio llunwyr polisi a llunwyr penderfyniadau eraill trwy adroddiadau a chyflwyniadau sy'n adlewyrchu'n deg yr ystod lawn o safbwyntiau, a phenderfyniadau sy'n adlewyrchu'r wybodaeth a gyflwynir.
- Mae newid sefydliadol a system yn digwydd, gan gynnwys newidiadau i brosesau gwneud penderfyniadau ffurfiol (anysgrifenedig) ac anffurfiol, mwy o adrodd cyhoeddus, a llai o wahaniaethu o fewn y system.
- Mae'r rhaglen ymgysylltu yn tyfu o ran maint a chynaliadwyedd, gan gyfrannu at effaith sefydliadol ehangach, gan gynnwys cyflogi mwy o bobl leol.

Mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu yn mynychu digwyddiadau tebyg eraill

- Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r profiad ac roedd yn fformat llwyddiannus.
- Maent yn meithrin eu sgiliau, eu profiad a'u rhwydweithiau gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr eraill er mwyn iddynt allu bod yn fwy cynrychioliadol a dangos eu hymrwymiad i wella gwasanaethau.

Mae canlyniadau'n cynrychioli buddiannau cymunedol ehangach

- Mae newid yn y defnydd o wasanaethau yn cynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael i grwpiau iechyd eraill

Mae cydweithio'n arwain at y canlynol

- Cydweithio â grwpiau cymunedol eraill, ynghyd â chyllidwyr, adrannau'r llywodraeth a'r cyhoedd yn ehangach

Mae ymgysylltiad o fewn y sefydliad yn gwella

- Mae prosesau gwerthuso ymgysylltu yn cael eu datblygu, eu mireinio dros amser i adlewyrchu nodau sy'n newid, a'u cymhwyso'n gyson.

- Adroddir ar gynnydd ar ansawdd ymgysylltu, gyda thystiolaeth glir o welliant o flwyddyn i flwyddyn.

Cyd-destun

- Mae arweinyddiaeth yn y sefydliad neu'r system
- Mae arweinwyr sefydliadau yn defnyddio/ymgorffori mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaethu a gofalwyr mewn ffyrdd adnabyddadwy.
- Mae strategaeth ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wedi'i chymeradwyo ar lefel y bwrdd sy'n tywys gweithgareddau ymgysylltu
- Mae'r Bwrdd yn disgwyl i wybodaeth ymgysylltu gael ei darparu ym mhob papur fel datganiad ffurfiol o gymorth ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a defnyddio hyn i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau.
- Mae strategaeth yn cynnwys strategaeth benodol ar gyfer recriwtio cyfranogwyr neu gynrychiolwyr ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu.
- Mae cynllun ymgysylltu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wedi'i gynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)
- Mae ymrwymiad i werthoedd ac egwyddorion ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i'w gael mewn dogfennau allweddol, e.e. cenhadaeth, gweledigaeth, strategaeth, adroddiadau blynyddol ac ati.
- Caiff adroddiadau sy'n crynhoi cyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eu rhannu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a chyda rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Caiff adroddiadau eu cyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- Mae cynnydd mewn ymgysylltu yn weladwy o flwyddyn i flwyddyn
- Mae cynllun cyfathrebu ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau ai gofalwyr sy'n dangos y gwerth y mae'r sefydliad yn ei roi ar ymgysylltu
- Mae cyllideb ac adnoddau wedi'u nodi ar gyfer ymgysylltu

Cymorth Sefydliadol

- Person cyswllt enwol o fewn y sefydliad ar gyfer defnyddwyr gwasanaethu a gofalwyr sy'n dymuno cymryd rhan
- Adnoddau digonol i gefnogi ymgysylltu

- Cymorth staff ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- Cymorth i ledaenu canlyniadau ymgysylltu
- Adborth gan gwynion defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

Cymorth Ariannol ac Ymarferol

Darperir treuliau allan o boced ac adnoddau ymarferol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, gan gynnwys:

- Costau teithio a chludiant
- Parcio
- Llety dros nos lle mae cyfarfodydd/cynadleddau'n rhy bell i deithio heb lety
- Gofal plant a chostau gofal eraill
- Prydau bwyd a lluniaeth
- Caledwedd/taled/meddalwedd cyfrifiadurol
- Cyfleusterau/costau argraffu

Trefniadau Ymgysylltu Hygyrch a Chynhwysol

- Cymorth cyfieithu
- Hwylusydd cyfarfodydd
- Man cyfarfod wedi'i deilwra ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- Amser cyfarfod wedi'i deilwra i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- Cymorth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr eraill
- Cymorth gan grwpiau a sefydliadau ymgyrchu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

Cymorth Gwybodaeth a Gwneud Penderfyniadau

- Defnyddio asesiad eang o anghenion a chryfderau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gefnogi gwneud penderfyniadau
- Gwybodaeth ddiuedd, heb jargon i wneud penderfyniadau arni

Mae hyfforddiant ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar gyfer eu rôl gwneud penderfyniadau

- Mae hyfforddiant yn cael ei gyd-gynhyrchu, o safona, ac yn cael ei arwain gan fframwaith cymhwysedd a ddewisir gan neu a gyd-gynhyrchir gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Mae hyfforddiant yn annibynnol ar y sefydliad neu'r system

Mae hyfforddiant mewn sgiliau cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu ar gael i staff ac fe'i cyd-gynhyrchir a'i gyd-gyflwynir gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

- Dewisir fframwaith cymhwysedd presennol ar gyfer gwaith ymgysylltu ar gyfer staff neu datblygir/cynhyrchir un newydd ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- Mae safon yr hyfforddiant yn uchel

Diwylliant Cyfranogol

Gwneud penderfyniadau clir ac agored

- Mae'r broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw
- Mae'r sefydliad neu'r system yn ymdrechu i wneud ei hun yn ddealladwy er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gael dylanwad
- Mae gwahanol ffyrdd y gall pobl gymryd rhan (e.e. cael gwybodaeth, ymgynghori, ymgysylltu, cyd-gynhyrchu, arweinyddiaeth)

Ymrwymiad i Ymgysylltu

- Dangosir ymrwymiad i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr drwy benodi swydd(i) arweinyddiaeth ymroddedig â thâl ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Mae'r person/y bobl hyn wedi defnyddio gwasanaethau.
- Mae'r sefydliad yn cydweithio'n ffurfiol â sefydliadau eraill sydd â diwylliant cyfranogol.

Rolau staff a chydabyddiaeth

- Mae disgrifiadau swyddi staff sy'n arwain ac yn cefnogi gweithgareddau ymgysylltu yn disgrifio cyfrifoldebau ymgysylltu yn glir.

- Mae'r sefydliad/system yn gwobrwyo staff am gymryd rhan mewn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Mae gan bob aelod o staff rheng flaen a rheoli cyfrifoldebau swydd ffurfiol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu.

Hyfforddiant

- Mae hyfforddiant cynhwysfawr dan arweiniad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a deunyddiau ar gael i staff sy'n cefnogi gweithgareddau ymgysylltu.

Agweddau tuag at ymgysylltu

Staff/rheolwyr

- Rhoi gwybod i'w cydweithwyr yn gyson eu bod yn gwerthfawrogi mewnwelediadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Credu ym mhwysigrwydd cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefel rhaglenni a pholisi.
- Credu bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn dod â phersbectif i brosiect na all neb arall ei roi.
- Credu y gall defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr edrych y tu hwnt i'w profiadau a'u problemau eu hunain.
- Credu bod safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a darparwyr yr un mor ddilys wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefelau rhaglenni a pholisi.

Gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr fel cynrychiolwyr neu fel aelodau o dimau gwella neu dimau eraill

- Mae staff yn ymwybodol o'r hyn y mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ei angen a'r hyn y maen nhw'n ei ddisgwyl gan staff.
- Mae staff yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol a'r hyn a ddisgwylir gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y rolau hyn a chaiff ei drafod/ei gyd-gynhyrchu gyda nhw.
- Mae staff yn teimlo'n gyfforddus yn dirprwyo cyfrifoldeb i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn amrywiol rolau.
- Mae staff yn deall y gallai salwch neu gyfrifoldebau gofalu olygu bod angen i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr gael amser i ffwrdd.

Pob grŵp

- Trin eich gilydd â pharch
- Does neb yn cael ei ddychryn

Proffil y cyfranogwr

- Mae profiad yn cael ei werthfawrogi
- Mae croeso i ddiffyg profiad
- Mae ymrwymiad y cyfranogwyr - fel y dangosir gan nifer y digwyddiadau a fynychwyd - yn cael ei werthfawrogi

Cynrychiolaeth ac atebolrwydd

- Defnyddiwr gwasanaethau neu ofalwr yn rhoi persbectif y defnyddiwr gwasanaethau neu'r gofalwr
- Cynrychiolydd defnyddiwr gwasanaethau neu ofalwr yn atebol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau'r sefydliadau neu'r system
- Defnyddiwr gwasanaethau neu ofalwr wedi'i benodi ar sail teilyngdod, gyda rhwydweithiau sylweddol gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eraill, gan roi persbectif i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r gofalwr
- Defnyddiwr gwasanaethau neu ofalwr lleiafrifol yn rhoi persbectif grwpiau lleiafrifol, agored i niwed neu wedi'u hymylu

Nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran

- Mae nifer y cyfranogwyr yn ddigonol i adlewyrchu daearyddiaeth a nodweddion demograffig lleol, darparu ehangder yr olwg, a gwneud y digwyddiad yn ystyrllon.
- Ar bwyllgorau a grwpiau cymysg, mae'r niferoedd yn ddigonol (e.e., o leiaf ddau ddefnyddiwr gwasanaeth a dau ofalwr) i sicrhau dylanwad o fewn deinameg grŵp a modelau gwneud penderfyniadau mwyafrifol, ac i gynnal llais er gwaethaf absenoldeb oherwydd salwch neu ymrwymïadau gofalu.
- Mae cyfranogiad yn ddigonol i osgoi symbolaeth, ond nid mor fawr fel bod unigolion yn teimlo'n cael eu hatal rhag siarad.

Mae'r bobl 'gywir' yn bresennol

- Pobl sydd â'r sgiliau a'r gallu i wneud gwahaniaeth ac nad ydyn nhw'n ofni siarad allan ac sy'n gallu cymryd rhan gyda chefnogaeth os oes angen

- Pobl sydd ag agwedd cyfaill beirniadol ac sydd â rhwydweithiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eang i gryfhau cynrychiolaeth a dylanwad.

Pŵer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

- Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr annibyniaeth ariannol, swyddi ffurfiol o fewn hierarchaeth y sefydliad, a datganiad o hunanlywodraeth ffurfiol.
- Ni chaiff lleisiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr eu cyfryngu na'u hidlo drwy sefydliadau na staff eraill, ac maent wedi'u hamddiffyn rhag dial gan y sefydliad.
- Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr bŵer fetu wrth wneud penderfyniadau a gallant gychwyn ymgysylltiad.

